**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
**Health and Social Care Committee**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**Ann Jones AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

5 Mawrth 2015

Annwyl Ann,

**Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru)**

Fel y gwyddoch, cyflwynwyd Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) ar 23 Chwefror 2015. Cyfeiriwyd y Bil gan y Pwyllgor Busnes at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar gyfer craffu arno yng Nghyfnod 1, gyda dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad yn ei gylch ar 3 Gorffennaf 2015. Mae'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi lansio ymgynghoriad cyhoeddus, i'w gynnal rhwng 2 Mawrth a 24 Ebrill, ac yn bwriadu clywed tystiolaeth lafar rhwng 25 Mawrth a 3 Mehefin.

Mae'r Bil yn ymwneud â rheoleiddio ac arolygu gofal cymdeithasol i bobl o bob oedran, gan gynnwys plant a phobl ifanc. Efallai y cofiwch, yn ystod y gwaith o graffu ar y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), clywodd eich pwyllgor dystiolaeth am effaith y Bil hwnnw ar blant a phobl ifanc, ac yn dilyn hynny ysgrifennodd at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Byddai'n ddefnyddiol pe bai modd i chi nodi a yw'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn debygol o ddefnyddio dull gweithredu tebyg mewn perthynas â'r Bil hwn.

Yn gywir,

David F. Rees.

**David Rees AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Bae Caerdydd
Cardiff Bay
CF99 1NA
Ffôn / Tel: 0300 200 6354
E-bost / Email: SeneddIechyd@Cynulliad.Cymru/
SeneddHealth@Assembly.Wales
Trydar / Twitter: @seneddiechyd / @seneddhealth
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg / We welcome correspondence in both English and Welsh